CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 15. RHIF 9.] MEDI, 1915. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL. S.
DYLEDSWYDD YR EGLWYSI. Mr. W. S. Jones, M.A., MSc.
UNDODIAETH AR OL Y RHYFEL. Parch. Simon Jones, B.A.
LLIWIAU BLODAU. Parch. T. M. Phillips, Middleton.
HEK I UNDODIAID. Mr. D. J. Davies, B.A. Ph.D.
Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.
ADOLYGIADAU. BEDYDD.
PRIODASAU. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.



ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidrawl drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Miss D., Llwynifan; J.J., Aberaman; J.E., Caerdydd; Inspector T., Ferndale; S.E., Burry Port; E.J.J., Kings Cross.

Geiriadur Newydd Spurrell

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES . .	IOLO MORGANWG . . .
MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . .
ALUN	Dr. OWEN PUGHE . . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .
YR HEN FICER . . .	IEUAN GLAN GEIRIONYDD
GEIRIADUR CYMRAEG	CALEDFRYN. . . . .

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1915. [CYF. XV. RHIF 9.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL.

NI bum ym Mangor ond am brynhawn byr, ond credaf i mi gael yr Eisteddfod i gyd ; gwelais a chlywais Lloyd George. Prynhawn y cadeirio oedd, a thorf o ddeng mil yn harddu'r babell eang o goed, a phob bron yn orlawn o ddisgwyliad. Yr oeddwn wedi cael awgrym pwy oedd y bardd buddugol ; yn wir, lled-dybiaswn er's amser hir mai un o feirdd athrylithgar llethrau'r Eryri âi a'r gamp. Edrychaswn ymlaen am orchestwaith megis Awdl yr Haf neu Awdl y Mynydd. Onid oes ysprydoliaeth mewn testyn fel Eryri, yn arbennig i blentyn a fagwyd ar ei harffed ?

Gwelais yr enwog Broffeswr Morris Jones am y tro cyntaf ; adnabum ef ar unwaith oddiwrth ei ddarlun. Onid yw ei wyneb yn anghyffredin o debyg i'r eiddo Mr. D. A. Thomas ? Y mae'n wyneb llawn o nerth ac athrylith. Yr oedd yn werth myned i Fangor i weled y bardd a'r gramadegydd enwog. Maes o law safai ar ffrynt y llwyfan o flaen y miloedd, a'r gwylaidd a'r talentog Gwynn Jones yn sefyll wrth ei ochr. Ni ddarllennodd ei feirniadaeth i gyd, ond, yn ddoeth iawn rhoddodd grynhodeb o honi, a hyny mewn llais treiddgar, melodaidd, meistrolgar. Druain o'r cystadleuwyr, tynnodd yr athro ei ysgrafell drostynt yn eithriadol drwm. Da oedd gennyf beidio bod yn eu plith am y tro. Pedwar oedd i mewn ; un yn hen ffasiwn, a'r tri ereill yn efelychwyr mwy neu lai gwasaidd o Mr. Gwynn Jones yn ei awdl benigamp ar Wlad y Bryniau. Nid oedd ganddo fawr da i ddweyd am un o honynt ; a thybiai pawb mai eu hatal gai'r gadair a'r wobr am eleni. Yn y lleiaf gwael o honynt nid oedd ond y pennill olaf o'r awdl yn werth ei ddifynnu. Yna, i ryw raddau, trodd y gath yn y badell, a sylwodd fod yr awdl oreu yn amlwg yn waith Cymreigiwr da, a chynghaneddwr gwych, a bod degau o'i gwaeth wedi eu cadeirio cyn hyn—a theimlais fy mod wedi derbyn hen gic ddigon cas fy hun ar law (neu ar droed) yr athro dysgedig. Galwyd am yr awdwr, oedd wedi cael digon o esgusawd dros guddio ei ben barddonol am byth, ac er peth syndod i mi, a chryn ryfeddod i lawer, safodd llanc ieuanc, byr, gwyneb-lyfn, ar ei draed yn rhan ol y pafiliwn, ac wedi i swn y dorf ddistewi, arwein-

iwyd ef, megis oen i'r lladdfa, rhwng Crwys a Phedrog at y llwyfan. Yn wir, yr oedd yn ddrwg calon gennyf drosto. Gwyddwn ei fod yn fachgen dysgedig a thalentog, yn uwch o'i ysgwyddau na degau sydd wedi eistedd yn y gadair genedlaethol. Fel bardd, efallai ei fod yn uwch na'r beirniad galluog ei hun; yn sicr, efe yw un o ysgolheigion goreu Cymru.

Ond dyna dynged y bardd, cael ei gollfarnu a'i gamfarnu ar droion. Nid bob amser mae hamdden nag ysprydoliaeth yr awen yn caniatau iddo fod ar ei oreu. Onid yw Shakespeare wedi ysgrifenu cyn waeled sothach a'r un crachfardd fu'n ceisio gwau rhigwm erioed? Am yr awen, "pan y myn y daw." Nid wyf yn edmygwr o'r gwr fedr ysgrifennu barddoniaeth (?) *to order* ar unrhyw bwnc gynygir iddo; nid er clod, ac nid er côd, y cân y wir awen.

Ond dyna'r bardd yn ei gadair. Yn ffodus iddo, nid arno ef yr oedd llygaid y dorf y prynhawn hwn. Yr oedd Cymro enwoca'r canrifoedd yn eistedd ar y llwyfan gerllaw. Efallai fod gwladweinydd mwyaf Ewrob yn ei ymyl. Cyfarfum a Mr. Lloyd George yn ddamweiniol mewn lluesty yn Boulogne ryw bum mlynedd yn ol. Clybu lefaru Cymraeg rhwng byrddaid o honom oedd newydd dirio yno, a daeth ymlaen yn serchog a dihunan i siglo dwylaw a'i gydwladwyr, gan siarad Cymraeg naturiol a diledlaith. Yr oedd newydd brynu pecyn o sigarets, a sylwodd fod llywodraeth Ffrainc yn gwneyd cryn arian drwy werthu tybaco—a chofiais yr hyn ddywedodd pan godwyd treth y myglys yn y *budget* cyntaf ar ol hynny. Os da rwy'n cofio, dyna'r pryd yr aeth i'r Almaen i astudio'r gyfundrefn yswiriol yno.

Mae'r gwladweinydd enwog wedi heneiddio llawer wedi hynny, ac nid rhyfedd, a chofio gymaint y mae wedi fyw er yr amser hwnnw. Y mae wedi byw llawer canrif o fywydau cyffredin. Mae ei wallt a'i farf yn llwydwyn, ac y mae aradr llafur a chyfrifoldeb wedi gadael cwysi dyfnion ar ei wyneb. Mae'r wên ddihafal yn aros, a'i lygad mor heulog ag erioed; ond ar brydiau gwelwn megis cwmwl yn taflu ei gysgod ar ei wyneb hardd, a chofiwn am yr ystorm ofnadwy a ruai draw ar orwelion y dwyrain pell, a'i hechryslonder yn wybyddus iddo ef yn anad neb. Yn ei ddarluniau, melysder a rhesymoldeb y canolwr cymodol a welir, ond o sylwi ar ei wedd am ennyd gwelwn y gwefusau yn cau yn dŷn a phenderfynol, a'r talcen yn crynhoi ei nerthoedd beirniadol, a throi'r gweinidog yn feistr. Melyster a nerth mewn undeb—dyna ddirgelwch gallu Mr. Lloyd George. A thu ol i'r pwerau allanol a fedd, y mae yna nerth cyfriniol dyfnach fyth: y nerth ysprydol ac anesboniadwy hwnnw a symir i fyny yn y gair personoliaeth.

Yr oedd y dyrfa fawr wedi ei thrydanu gan ei bresenoldeb cyn gynted ag yr ymddangosodd ar y llwyfan; a phan safodd ar ei draed i'w hannerch yr oedd y dorf mor ufudd dan ei law ag organ i'r chwareuydd, a thynnai ysprydoliaeth allan o honi fel y tynnai'r dorf ysprydoliaeth allan o hono ef. Yr oedd pob symudiad, pob edrychiad, pob ystum o'i eiddo'n orlawn o hyawdledd. Ni ddywedodd ddim

na fedrai digon yn y dorf ddweyd; gwyddai fwy am y rhyfel na neb arall oedd yno, ond ni fynegodd ddim newydd. Nis gwyr neb yn iawn beth oedd yn ei feddwl pan yn son am yr Almaen yn torri llyffetheiriau Rwsia a'i magnelau enfawr, ac yn llunio cleddyf yn y dwyrain i ladd ei hunan yn y diwedd. Credaf nad olygai ddim yn rhagor na bod y German yn deffro gwerin enfawr Rwsia gan swn ei chyflegrau—peth sydd amlwg i bawb. Tybiai llawer ei fod yn cyfeirio at ryw symudiadau anhysbys i neb y tu allan i gylch cyfrin arweinwyr y teyrnasoedd. Siaradai weithiau yn Saesneg, ond fynychaf yn ei famiaith. Sylwai rhai fod ei Gymraeg yn fwy anystwyth nag y bu; ond yr oedd ei Saesneg, beth bynnag, yn loew ac urddasol.

Mae wedi colli pob anfantais flinai Gymro cyhoeddus; 'does dim trwsgl, gwledig, anurddasol yn ei ddull. "Mewn gweithred, mewn gwisg, ac mewn gwedd," nid ellir canfod dim yn ei gylch a dery yn erbyn y chwaeth mwyaf gwrteithiedig. Ym mron pob Cymro cyhoeddus, y mae rhywbeth, mewn osgo neu ddull neu ddiwyg, y rhaid ei faddeu am mai Cymro ydyw; methais ganfod dim o'r fath yn Mr. Lloyd George.

Ni siaradodd yn hir, dim ond am ryw chwarter awr; fel y dywedais eisioes, ni roddodd fynegiant i ddim newydd am y rhyfel; ni luniodd un o'i frawddegau anfarwol, os na bydd byw, yng ngoleu'r dyfodol, ei ffigwr o "fagnelau enfawr Germani yn dryllio hualai gwerin Rwsia." Siomwyd pawb gan fyrder ei araeth; siomwyd llawer yn ei chynnwys; a siomwyd rhai hyd yn oed yn null ei thraddodiad. Ond, fel y bardd, nid yw'r areithydd hyotlaf bob amser ar ei fan goreu. Mesurir mynydd wrth uchder ei binacl talaf.

Nid wyf yn wron-addolwr mawr. Credaf mai amgylchiadau yn aml sydd yn gwneud y dyn. Cael ei gario ymlaen gan lif o ddigwyddiadau manteisiol mae aml i arwr. Neu, efallai mai cywirach yw dweyd fod digon o arwyr yn y byd; y manteision sydd yn anaml. Mae'r rhyfel wedi profi'r gosodiad yna i'r eithaf. Ond am Lloyd George, yn anad neb arall, teimlwn ei fod ef yn feistr ar amgylchiadau; try pob rhwystr ar ei ffordd yn ris dyrchafiad iddo; ni wna pob ystorm ond peri i'w glod wreiddio yn ddyfnach yn y tir.

Myn rhai dynnu gobeithion claer o eiriau y gwladweinydd Cymreig ym Mangor; credant eu bod yn clywed swn buddugoliaeth agos yn ei frawddegau; ond yr argraff adawodd ei araeth arnaf fi oedd fod amser difrifolach nag erioed gan yr ymerhodraeth i'w wynebu, a bod llu o beryglon enbyd yn ein haros ar y ffordd hir a throiog sydd yn arwain i goncwest derfynol.

Ar y llwyfan gwelwn ffurf gadarn Gymreig Williams Brynsiencyn, mewn gwisg filwrol! Onid yw bywyd wedi troi'n freuddwyd er's blwyddyn? A phwy yn yr hunllef fwyaf echrys a welodd ddim hafal i'r gyflafan ofnadwy sydd wedi goddiweddyd ein daear? Bechgyn Cymru yn yr ugeinfed ganrif wedi ymffurfio yn fyddin o gan mil—a Williams Brynsiencyn yn gaplan milwrol: golygfa ryfedd, ofnadwy—ac ardderchog!

Anwylaf wlad fy nhadau—ei thir llwyd
I gyd a brynwyd a gwaed ei bronnau.

Pan ysgrifennwyd y cwpled, nid oedd y geiriau ond mynegiant o weledigaeth niwlog, ansylweddol, freuddwydiol; erbyn heddyw, meddant ystyr lawn o ffaith a phrofiad y presennol.

A gynhelir Eisteddfod Genedlaethol eto yn adsain taranau rhyfel? —y nefoedd a gyfryngo. A waeddir Heddwch! o'r llwyfan cyn i drais, a gormes, a milwriaeth gael eu hysgubo o wledydd crêd—na ato Duw!

S.

DYLEDSWYDD YR EGLWYSI TUAG AT Y WEINIDOGAETH.

(*Anerchiad draddodwyd yn Nghyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas, Awst 4ydd, 1915, gan y Llywydd, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc.*

Anwyl Gyd-grefyddwyr.—Cefais gryn anhawsder i benderfynu testyn fy anerchiad ar yr achlysur hwn. Y mae cynifer o ddigwyddiadau pwysig wedi cymeryd lle yn ystod y misoedd diweddaf hyn nes lluosogi nifer y pynciau cyfaddas i'w trin ar amgylchiad fel hwn. Flwyddyn yn ol y torrodd y rhyfel ofnadwy presennol ar dawelwch cyfandir Ewrop, a gellid ystyried y gyflafan hon, sydd yn gosod toll fawr ar fywydau dynion ieuainc goreu'r byd, a threth drom ar ffydd y ddynolryw, yn bwnc teilwng o sylw manylaf Cristionogion.

Ond wedi meddwl, hyd y caniatäi amgylchiadau sydd wedi diddymu hamdden bron yn llwyr, meddyliais mai cymwys i leygwr fyddai trafod rhai o'r cyfryw agweddau o fywyd eglwysig sydd yn fwy annodd i bregethwr, yn herwydd ei safle arbennig, i son dim am danynt. Felly, fel

LLEYGWR AT LEYGWYR

y cyfeiriaf fy sylwadau yn fwyaf neillduol.

Fy mwriad yw, nid chwilio beiau, ond galw sylw mewn geiriau plaen at rai diffygion yn yr eglwys sydd yn gofyn am ystyriaeth fanwl oddiwrth bob un a broffesa'r grefydd Gristionogol. Goreu i gyd po gyntaf y gwynebir hwy, ac heb eu hwynebu'n wrol, nid oes obaith am eu cywiro. Felly, gyda'r bwriad unplyg o geisio gwneud rhyw ddaioni y beiddiaf eich hannerch ar linellau sydd dipyn bach yn *delicate*, o bosibl.

Teimlaf fod yr amgylchiad hwn i mi, ac yn ddiameu i ereill sydd yma yn un arbennig iawn—yn garreg filldir yn hanes eglwysi ac unigolion. Y mae hen gysylltiadau sydd wedi bodoli am flynyddoedd meithion ar fin cael eu torri, a rhai newyddion ar fedr cael eu ffurfio. Yr ydych chwi heddyw fel eglwysi yn Llanbedr a Chellan yn ffurfio cysylltiadau newyddion, ac y mae'n bleser mawr gennyf, nid fel Llywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, ond fel aelod o'r eglwys hon, i groesawu Mr. Williams yn weinidog newydd i'r lle hwn. Fel cyd-addolwr ag ef yn y ddeadell fechan yn Aberystwyth yn ystod y ddwy flynedd a hanner ddiweddaf, gallaf heb betruso ddweyd nad oedd neb ffyddlonach yn mynychu'r gwasanaeth yn yr Heol Newydd. Fel cynrychiolydd hefyd o'r eglwys honno, y mae'n orphwysedig arnaf i ddadgan yn gyhoeddus ddymuniadau da ei frodyr yno, ac i eidduno iddo hapusrwydd diledryw a llwyddiant llwyr yn yr yrfa y cychwyna arni heddyw. Y mae maes llafur toreithiog i chwi, Syr, yn Llanbedr i arfer eich doniau ac i gynal baner rhyddymofyniad. Rhoddwn ninnau fel eglwysi iddo bob anogaeth yn ei ymdrechion.

Ar ol rhagymadroddi'n fyr yn y fel yna, chwi ganiatewch, mi gredaf, mai nid anaddas yr amgylchiad i mi draethu tipyn ar y pwnc a nodais—heb gyfyngu fy sylwadau i eglwys nac i enwad, ac heb, mi obeithiaf, drespasu ar faes pregeth yr henadur parchus o Aberdar. Gwn, os gwnaf, mai efe fydd y cyntaf i faddeu.

Pan wnaed i mi'r anrhydedd o'm hethol, yn fy absenoldeb, yn Is-Lywydd y Gymdeithas, penderfynais ar unwaith mai'r gwasanaeth goreu a fedrwn gyflawni fyddai, nid traddodi annerch y gadair, ond ymgymeryd a rhyw waith a fyddai'n debyg o wneud lles parhaol. Yn unol a'r penderfyniad hwn, caniataodd Pwyllgor y Gymdeithas i mi ymgymeryd a chasglu cronfa go dda i sicrhau ysgoloriaethau i'n galluogi i roddi'r addysg oreu posibl i'n hefrydwyr cyn iddynt ddechreu ar waith y weinidogaeth—i roddi cyfleusdra iddynt i hogi eu crymanau'n dda cyn dechreu medi.

Dechreuais o ddifrif ar y gwaith hwn, ond yn anffodus torrodd trychineb ar y byd na welwyd ei fath erioed o'r blaen, ac a hyderaf, os myn Duw Nefoedd a Daear a Thad yr holl hil ddynol, na welir ei fath byth mwy, ac ar ol ymgynghori â chefnogwyr calonocaf y mudiad gorfu arnaf, o anfodd fy nghalon, yn wyneb y gofynion digyffelyb a syrthiasai ar ysgwyddau pawb, i roddi i fyny bob meddwl am gario allan y cynllun. Siom fawr i mi fu hyn am y teimlwn mai un o brif ddyledswyddau llywydd ddylai fod cario allan ryw drefniant o wasanaeth yn ystod tymor ei swyddogaeth. Chwi faddeuwch i mi am awgrymu na ddylid gollwng i'r cynllun i syrthio i dir angof pan o ras Duw yr ail-sefydlir heddwch yn y byd.

Y mae fy nghysylltiad a byd addysg bellach wedi bod yn ddigon maith ac agos i ddeall fod yr addysg oreu mor anhebgorol i'r weinidogaeth, os nid yn fwy felly, nag i nemor i gylch arall o lafur. Y mae'n brodyr, y Methodistiaid Calfinaidd, efallai wedi sylweddoli hynny yn fwy nag unrhyw gorph arall o Ymneillduwyr. O leiaf, y

maent wedi blaenfyned yn fwy yn ystod y blynyddoedd diweddaf na neb arall a wn i am danynt. Fel y cynhydda gwybodaeth y werin, felly hefyd y dylai eiddo'r weinidogaeth eangu.

Gwn o'r goreu na wna addysg o honi ei hun bregethwr, ond ni wn am unrhyw bregethwr y mae addysg wedi gwneyd llai o bregethwr o hono. Gall y dysgedig o leiaf fod mor syml a'r annysgedig, ac ar yr un pryd bydd yn debyg o fod yn nes i'r gwir.

Nid oes y fath beth yn bosibl a gorddysg i bregethwr. Y mae yna gri cyffredin heddyw fod y bobl ieuainc yn colli dyddordeb yng ngwaith yr eglwysi. Gydag eithrio gweinidogaeth dduwiol a glan nid oes dim mor debyg o gadw'r bobl rhag colli serch at grefydd ag ydyw gweinidogaeth oleuedig. Y mae Duw'n anfeidrol a'r dadguddiadau o hono'n ddiderfyn. Chwiliwch yr Ysgrythyrau, meddai'r hen air—pwy'n debyg i'r diwylliedig i gael gafael yn nyfnion bethau Duw!!

Y mae ysgolheigion wedi trawsnewid ein syniadau am y Beibl ac wedi ei wneud yn llawer mwy o werth i bererinion yng ngwahanol brofiadau bywyd. Y mae yna feiblau eraill Duw hefyd i'w deongli. Chwiliwch natur drwyddi draw a chwi a gewch ei bod yn llawn o Dduw.

Ceisiaf ddangos drwy engraifft neu ddwy o'r byd anianol fod yna lu o amlygiadau gwahanol yn cymeryd lle'n barhaus o'n hamgylch nas gallwn eu canfod heb ddealldwriaeth briodol ac heb addasu ein hunain ar gyfer eu clywed.

Y mae'r teithiwr yn gweled prydferthwch y blodeuyn wrth ymyl yr heol. Y mae'r arlunydd sydd wedi dadblygu ei gynheddfau cain yn gweled y prydferthwch hwn i raddau anfeidrol mwy. Ond os bydd yr arlunydd hefyd yn wyddonydd y mae'n gallu treiddio'n ddyfnach i ddirgelion natur—y mae'n dyfod yn nes at y Creawdwr drwy'r greadigaeth. O'r rhyfeddod sydd yn y blodeuyn distadlaf! Cymaint o Dduw sydd ynddo!! Y mae ei gynlluniau cywrain i adgenhedlu ei ryw, y celloedd mân aneirif sydd i'w canfod ynddo drwy'r chwydd-wydr, a bywyd cymhleth y celloedd hyn oll yn dadgan doethineb a chariad Duw, ond y mae'n rhaid wrth ddysg cyn canfod eu hystyr. Nid mewn addysg y mae perygl, ond mewn anwybodaeth. Anwybodaeth sydd i raddau pell yn ein hanghymwyso i weled a dirnad y Duw byw.

Po fwyaf diwylliedig y dyn mwyaf o Dduw sydd yn ei fywyd, a mwyaf i gyd o Dduw a ddadguddia i'r byd. Cul yw llwybr y diddysg, a chul y collfarna arall. Mae'n foddlon ar ychydig pan y mae yna fendithion anherfynol o fewn ei gyrraedd. Y mae ei anwybodaeth yn ei wneud yn hyf i feirniadu a chondemnio arall.

Wele engraifft arall eto i ddangos nad yw'r llygad noeth a digymorth yn ddigon craff i ganfod llawer o symudiadau y gymera le'n barhaus o'n cwmpas.

Pwy a wâd heddyw—er mor annhebyg ac anghredadwy y peth ychydig iawn o flynyddoedd yn ol—fod yna ar hyn o bryd o bosibl negesau o Ffrainc yn pasio drwy'r capel hwn ar eu ffordd i Dywyn,

Meirionydd. Tybiaf glywed yr anghyfarwydd a phethau o'r fath yn dweyd—amhosibl, neu sut na allasem eu clywed? I ganfod y cyfryw y mae'n rhaid wrth offeryn neu dderbynydd arbennig. Y mae hwnw wedi ei osod ar lan bae Aberteifi. Nid yw'r ffaith na chlywn ni hwynt yn ddigon i brofi na fodolant. Peidiwn yn ein hamerffeithrwydd a chredu ein bod wedi amgyffred yr oll o natur ac o Dduw.

Engraifft arall i ddangos mor hwyrdrwm y dichon y clust digymorth fod. Gallwn oll ganfod gwahaniaeth rhwng sain y berdoneg ac eiddo'r crwth pan fo'r un nodyn yn cael ei daro gan y ddau offeryn. Beth achosa'r gwahaniaeth? Gofynnwch i'r cerddor diwylliedig a sonia wrthych am yr hyn a elwir yn *overtones* neu seiniau eraill cydfynedol a gydgynhyrchir a'r brif sain—seiniau nas gallwn ni eu gwahaniaethu ac sydd yn achos o'r amrywiaeth hwn yn yr un nodyn a seinir gan y ddau offeryn gwahanol. Dyna fel y mae ymhob cylch anianol. Y mae'n rhaid perffeithio'r *receiver* i dderbyn yr argraff.

Y mae'r un peth yn union yn wir am y byd ysbrydol a moesol. Nid ydyw Duw wedi cyfyngu dadguddiad i unrhyw oes, nac i unrhyw genedl, nac o ran hynny i unrhyw enwad. Y mae beunydd a beunos yn ceisio amlygu ei hun i'w blant, a ninnau'n fynych heb ganfod. Y mae'n rhaid i ni berffeithio'r cyfryngau drwy'r rhai y mae Duw'n siarad wrthym, ac i osod y meddwl yn y cywair priodol i dderbyn o'r dylanwadau bywiol a'n hamgylchyna bob amser ar bob tu.

Y mae ambell i ddyn mor *sensitive* fel nas gall wneud twyll gwirfoddol a neb o'i gyd-ddynion. Y mae arall yn llai *sensitive* yn proffesu crefydd fel y llall nad yw'n teimlo euogrwydd mor fuan. Y mae Duw'n llefaru'n barhaus wrth bawb o'i blant, ond y mae'r derbynnydd yn fynych yn rhy glustfyddar ac anheimladwy i allu clywed a deonglu'r llais. "Canys a hwy yn gweled, nid ydynt yn gweled; ac yn clywed, nid ydynt yn clywed, nac yn deall (Matt. xiii. 13).

Gallwn ymhelaethu llawer ar yr Ymgnawdoliad o Dduw yn y bydysawd.

> "Ar y dolydd eang a'r llechweddau serth,
> Ar ysgwyddau'r mynydd, ar y creigiau certh,
> Gwelwn enw'r Arglwydd mewn llyth'rennau byw,
> Beth yw'r greadigaeth?—Beibl arall Duw."

Ond yr wyf wedi dweyd digon i ddangos fod y pregethwr diwylliedig yn meddu offerynnau a chyfryngau nag sydd gan yr anwybodus i ddeongli Duw a'i fynegu i ddynion. Felly un o brif ddyledswyddau'r eglwys ydyw gosod pob mantais addysgol o fewn cyrraedd y rhai hynny o'n dynion ieuainc sydd a'u hwynebau i gyfeiriad y weinidogaeth.

(*I'w barhau.*)

UNDODIAETH AR OL Y RHYFEL.*

Ar ddechreu'r papur hwn yr wyf am ddadgan fy nymuniad na chaiff yr ymdriniaeth arno ddirywio i ryw ddadleuaeth ddiffrwyth yn nghylch y rhyfel, nac i unrhyw achwyniadau ofer yn mherthynas i'r pleidiau gymerant ran ynddo, nac i unrhyw gais i ddosparthu'r bai, nac i son hyd y nod am delerau heddwch. Credaf y cytunwn bawb nas gall fod ond anrhefn y ffordd hono, dygasedd posibl ac anfuddioldeb sicr.

Pwnc fy mhapur yw "Undodiaeth *ar ol* y Rhyfel," ac nid Undodiaeth *a'r* Rhyfel, ac felly hyderaf y cyfrifa'r Cadeirydd araeth yn galw am *recruits*, a phob sèn y tu allan i bwnc y testun ac felly *out of order*. Byddai'n ddrwg genyf fod unrhyw eiriau o'r eiddof fi, a fwriedir i fod yn help i'r Gymdeithas, brofi'n achos o ymryson dibwrpas a diles.

Ffaith a addefir gan bawb yw, mai tuedd y Rhyfel yw dymchwelyd pob math o gymdeithas — y teulu, y ddinas, yr eglwys, y wladwriaeth. Mae y rhai y perthyn iddynt i lunio safle ddyfodol yr amrywiol gymdeithasau hyn eisoes wedi ymgynghori â'u gilydd ac ystyried, mor bell ag y gallant, beth fydd effaith debygol yr ymryson presenol ar eu gwahanol gylchoedd eu hunain, ac yn gwneud y parotoadau priodol ar gyfer hyny. Mae'r arianydd yn cyhoeddi llyfrau ar gyflwr y farchnad arian ar ol y rhyfel; y marsiandwr yn gwneud ei gyfrifon yn mherthynas i'r canlyniadau i fasnach; y trefnidydd (*economist*) yn ceisio ystyried beth fydd yr effaith ar y gwahanol ddiwydianau; a'r diwygiwr cymdeithasol yn treio deall beth fydd yr effaith debygol ar fywyd, arferion, a defodau'r bobl; ac yr wyf fi yn credu ac am hyny yn llefaru, y byddai'n ddoeth i'r gwahanol gyrff crefyddol ystyried beth fydd y canlyniadau i grefydd, ac yn neillduol i'r grefydd hono, yr hon yn eu tyb hwy fydd y trosol mwyaf effeithiol i weithrediad uwch.

Yn awr, nid wyf fi'n proffesu gwybod beth fydd effaith y rhyfel presenol ar Undodiaeth. Nid wyf yn ymddangos ger eich bron yn y cymeriad o broffwyd; ond os wyf fi yn gallu darllen arwyddion yr amseriau yn iawn, y mae yna yn wastad ryw ganlyniadau crefyddol neu'n hytrach anghrefyddol amlwg i ryfel—rhyw dueddiadau na allant lai na pheru i ni deimlo yn anesmwyth, yn neillduol yn mherthynas i Gristnogaeth Ryddfrydig; a byddai'n foddlonrwydd i mi, ac o bosibl i eraill, i glywed beth mae fy nghydweinidogion ac aelodau'r Gymdeithas hon yn feddwl am y pethau hyn, ac yn neillduol i gael cyfarwyddyd Ysgrifenydd y '*B. & F.*', profiad eang a chynghorion doeth yr hwn allant fod o'r gwerth pwysicaf i ni yma heddyw. Nid i ryw anerchiad cyffrous, ond i ymdriniaeth bwyllog ac ystyriol o bwnc difrifol iawn yr wyf yn eich gwahodd yn awr.

I ddechreu ynte, Nid oes genyf yr amheuaeth leiaf na fydd i'r rhyfel presenol ddylanwadu yn niweidiol iawn ar Grefydd ac yn enwedig ar y Grefydd Ryddfrydig.

Yn ei lyfr ar "Germani a'i Ymerawdwr," a gyhoeddwyd cyn y rhyfel presenol, fe adrodda Mr. G. H. Perris rai pethau truenus iawn a gymerasant le fel canlyniadau y rhyfel crefyddol ar y Cyfandir, 1618–1648,—y "*Thirty Years War*"—ar fywyd moesol a chrefyddol y wlad.

Wrth symio i fyny ei ymresymiad, fe ddywed Mr. Perris,—Gellir cyfrif

*P'apur a ddarllenwyd yn nghwrdd y Gymdeithas De-Ddwyreiniol Undodaidd yn Merthyr Tydfil, dydd Llun, Ebrill 26, 1915, gan y Parch. Simon Jones, BA., Llywydd y Gymdeithas.

tyfiant o deimladau ffugiol, cynydd yn nylanwad yr offeiriad a'r aristocrat, diflaniad yr yspryd gwladwriaethol, a diofalwch cyffredinol yn nghylch y bywyd cyhoeddus a'i ddelfrydau, fel canlyniadau y rhyfeloedd a gymerasant le ar ol dinystr cyfansoddiad cymdeithasol Germani y Canol Oesoedd.

Mae canlyniadau marwolaeth a thrais o'r fath hyn, er yn fwy anhawdd eu mesur, eto yn llawer mwy pwysig na'r cyfnewidiadau politicaidd ac eglwysig ar y rhai y mae'r efrydydd yn gyffredin yn cyfyngu eu sylw. Diraddir a gwanheir holl gyfansoddiad cymdeithas. O'r flwyddyn 1650, fe syrthiodd corff y bobl i ofergoeliaeth, ac ymollyngodd rhai gweiniaid, menywod yn benaf, i ormod rhysedd y *Pietist*.

Ar ol 1700, darfu i'r mudiad hwn afaelu bron yn yr oll o'r eglwysi gwledig, a hyny hyd y nod pan oedd y mudiad rhesymolaidd wedi dechreu. Ni ellir galw cyfoeswyr Lessing yn bobl wrol. Yr oedd moesau cymdeithas wedi eu gwenwyno gan fath o ffug-deimlad, a ffug-ymddygiad a gwaseidd-dra. Wylai dynion yn rhwydd ac am oriau o'r bron, a thorodd allan ryw haint o anfoesoldeb a meddwdod a phechod, y rhai a derfynasant mewn gorphwylldra, hunanladdiad a chospedigaethau erchyll. Yn Franconia fe gyfreithlonwyd amlwreiciaeth, am fod rhif y menywod yn fwy na rhif y gwrywod. Bydd caritor cenedlaeth lle mae mwyafrif mawr o fenywod a phlant yn rhwym o fod yn afiach ac o adael nodau dwfn ar fywyd trefnidol (*economic*), gwleidyddol, deallol, a moesol y dyfodol.

Cynauaf o Ddynoliaeth erchyll, onide? Sicrheir ni fod rhyfeloedd Ffrainc gan' mlynedd yn ddiweddarach, yn dangos dirywiad cyffelyb oddiwrth grefydd resymol. Y mae ffug-deimlad, adferiad dylanwad yr offeiriad, ofergoeliaeth, a'r ymollyngiad i ormod rhysedd y *Pietist*, yn gwbl groes i'r hyn yw Undodiaeth wedi bod erioed. Ac er fod 200 o flynyddau wedi pasio dros y byd oddi ar hyny, ofnaf fy mod yn canfod arwyddion nid aneglur, o long-ddrylliad cyffelyb, i'w adael ar ol gan drai y nwydau ar derfyn y rhyfel presenol.

Gadewch i mi gyffwrdd yn fyr ar rai o'r arwyddion.

1. *Crefydd yn y Rhywogaeth Wrywaidd yw Undodiaeth.*—Apelia at yr elfen gref, wrol, anibynol mewn bywyd. Nid crefydd i rywbeth heb asgwrn cefn yw; ond crefydd i ddyn yw. Ond y mae rhyfel yn wastad yn afradus ar ddynion. Y dynion, y dynion gore, yn rhyw ystyr yw y rhai a basiant y *Recruiting Doctor*, ac y mae'r golled yn benaf yn mhlith y rhai mwyaf beiddgar, mwyaf gwrol. Y teip o ddyn at yr hwn y dysgwyliwn i'n Ffydd ni apelio yw yr hwn a fydd yn sicr o gael ei ddegymu ar faes y rhyfel. Bydd yr elfen wrywaidd mewn Ffydd gan hyny mewn perygl difrifol oherwydd colli yr elfen wrwyaidd mewn bywyd. Dyna'r "Danger Signal" cyntaf.

2. *Mae Undodiaeth yn Grefydd yr Unigoliaeth Uwch.*—(The Higher Individualism). Y mae yn Brotestanaidd, yn Anghydffurfiol, yn Unigoliaethol. Defnyddiaf y termau hyn yn eu hystyr eangaf. Y mae'n rhaid fod mewn dyn gryn dipyn o wrolder i ymdori yn rhydd oddiwrth y dorf, i wrthod cydymffurfio â'r credoau poblogaidd, ac i wrthdystio yn erbyn yr uniongredaeth boblogaidd, cyn y gall ddyfod ac aros yn Undodwr. Rhaid fod ganddo rywbeth o'r gallu i sefyll allan, i sefyll yn unig, yn hunan-ddibynol, yn unigoliaethol mewn ystyr urddasol, oblegyd y mae yna unigoliaeth urddasol yn ogystal ag un wael, hunangar. Undodiaeth gan hyny yw crefydd yr Unigoliaeth Uwch.

Ond y mae Rhyfel yn Gymdeithasigaidd (socialistic). Defnyddiaf y term hwn eto yn ei ystyr mwyaf eang ac amhleidiol. Yn amser rhyfel cyll yr Unigolyn ei annibyniaeth. Mae'n ymsoddi yn y corff cyffredin. Yn y fyddin nid yw mwyach yn berson—rhif yn unig yw—No. 1536. Hyd y nod yn y bywyd dinasol neu wladol, ar amser fel hwn, y mae i'r unigolyn lai o iawnderau. Suddir ei fuddianau

yn eiddo'r wladwriaeth. Y mae milwriaeth yn gwneud ac yn dadwneud peiriant o'r dyn. Fel aelodau o'r gatrawd—

> Theirs not to make reply,
> Theirs not to reason why,
> Theirs but to do or die.

Ond y mae Undodiaeth yn seiledig ar yr hawl "i ofyn Pam." Gan hyny y mae pob peth sy'n tueddu i dywyllu neu i wadu yr hawl *i ofyn pam*, yn y pen draw, yn elynol i les Undodiaeth.

3. *Y mae Rhyfel yn gollwng Nwydau Dynolryw yn Rhydd.* Yr wyf yn falch i gydnabod ei fod yn rhyddhau y rhai da yn ogystal a'r rhai drwg.* Dyna un o'r pelydrau Ebrill sydd yn trywanu'r cwmwl yn nghanol cynddeiriogrwydd yr ystorm. Hyny yw, fod dynion ar y fath amser, yn dyfod yn fwy haelfrydig ac yn fwy eang-galon. Ceir dosparth yn nesu at ddosparth, a *Dyn*garwch yn rhodio'r heol ochr yn ochr a *Gwlad*garwch, a—rhyfeddach fyth—ceir mwy o hynawsedd at drigolion y gartref-wlad yn cydfyned a chasineb a chwerwder at y gelyn. Dyna'r da yn ogystal a'r drwg. Da a'r drwg—nwydau yw'r ddau, a pherthyn y ddau i diriogaeth y teimlad. Ar amser fel hwn, mor bell ag yr ydym yn dda, *cynhyrfiadau* da sy'n ein gwneud ni felly. Yr ydym yn byw yn nhiriogaeth y Teimlad, a lle mae Teimlad yn rheoli, mae'r Deall yn gostwng. Mae Teimlad yn was da, ond yn feistr caled. Gallu gyriedol ardderchog yw, ond peryglus fel arweinydd. Mae canlyniadau truenus y cyffro a'r cynwrf a nodweddiasant ddechreu y rhyfel eisoes yn dyfod yn amlwg yn nifer cynyddol y mamau dibriod yn ein mysg. Os yn y bywyd cymdeithasol yn unig y mae'r canlyniadau mor drystfawr, gallwn fod yn sicr pan fydd dynion yn byw yn nhiriogaeth y teimladau, na fydd y canlyniad i grefydd yn ddim llai dinystriol. Amlyga ei hun yn y gwrthdarawiad yn erbyn rheol rheswm a diorseddiad cydwybod, a gwanychiad yr ewyllys, a chynydd y duedd at ffug-deimlad ac ofergoeliaeth.

4. *Perygl arall i Undodiaeth ar ol y Rhyfel fydd rhoi gormod o le i'r teimladau mewn crefydd—gormod o Emotionalism.* Rhoddir math o symbyliad i'r duedd hon heddyw gan agwedd newydd y meddwl athronyddol. Yn ystod y deng mlynedd diweddaf neu ragor, cawn fod Eucken a Bergson yn awgrymu fod safle eithafol yn cael ei roi i'r Deall—pob un o honynt yn ei ffordd ei hun yn nodi ei gyfyngiadau, a'i anaddasrwydd fel offeryn Gwybodaeth, a'r angen am rywbeth mwy eang ei weledigaeth, i alluogi dyn i fyn'd i fewn i deyrnas y gwirionedd a ffaith—teyrnas y *Reality*. Yr wyf fi fel un yn ystyried y gwrthwynebiad i raddau yn angenrheidiol, y feirniadaeth yn deg a'r casgliadau yn rhesymol. Ond rhaid i mi gyffesu fod ofn arnaf rhag i'r fath addysg os heb ei ddeall yn iawn, gael ei droi yn nwylaw dynion bach i fod yn offeryn yn erbyn hawliau rheswm hyd y nod yn ei gylch priodol ei hunan; a lle diorseddir rheswm ni all Undodiaeth fyw.

Gwnaiff y Gwrthdystiad yn erbyn rhoi lle eithafol i'r Deall gasglu nerth yn meddyliau y werin o achos rhyfel. Oblegid i'r dyn ar yr heol neu yn y farchnad neu'r gyfnewidfa, prif nodwedd yr Almaen yw dealltwriaeth, ac fel canlyniad daw y rhagfarnau yn erbyn yr Almaen yn rhagfarnau y werin—yn erbyn pethau deallol a chrefyddau deallol. Eto y dyb yn mhlith yr anwybodus yw mai Athrawon yr Almaen sydd yn gyfrifol am y Rhyfel; ac y mae ei hathrawon duwinyddol ac athronyddol, yn gymaint a neb; ac yn mlaenaf yn eu plith, mae y rhai sy'n bleidiol i Gristnogaeth Rydd, dynion fel Harnack ac Eucken. Y mae gan yr Almaenwyr ddiareb a ddywed—Fe ddinystrir

* Er fod un Cadfridog wedi dweyd fod rhif y rhai drwg yn y cyfartaledd o *haner cant* i bob *un* o'r rhai da.

yr Almaen gan ei Hathrawon. Yr wyf wedi teimlo y gall yr amser ddod i adolygu'r ddiareb a dweyd, Fe ddinystrir Cristnogaeth Rydd gan ei Hathrawon, oblegid cawn fod dynion, eisoes sydd yn wrthwynebol i Undodiaeth yn defnyddio'r offeryn hwn yn ein herbyn. Ebe un o weinidogion y Bedyddwyr yn Abertawe y dydd o'r blaen gyda gwên o foddlonrwydd "Y mae'r gweinidogion ieuainc o bob enwad wedi rhoi heibio i son o'u pwlpudau am dduwinyddiaeth rydd y meddylwyr Almaenaidd"; a gellid deall fod y dyn hwn yn llawenychu wrth feddwl am y saeth newydd oedd ganddo yn ei gawell; ac ofnaf y caiff Undodiaeth deimlo'n fynych oddiwrth ei golynau gwenwynig.

Y foment y darllenais i *Manifesto* yr athrawon Almaenaidd, teimlais yn sicr y defnyddid ef fel arf i glwyfo Crefydd Rydd gartref ac oddi cartref. Ni fu raid aros yn hir cyn i Esgob Weldon ei ddefnyddio mewn papyr Eglwysig. Wrth ysgrifenu am gynydd yr Eglwys Anglicanaidd yn ystod yr 21ain mlynedd diweddaf, a'r mesur o undeb oedd wedi ei sicrhau rhwng ei gwahanol ganghenau—High, Broad, Low—dywed "Tebyg ddigon y byddai'r ysbryd undeb dedwydd yn mhlith Eglwyswyr wedi llwyddo yn mhellach fyth onibai dylanwad aflonyddol yr addysg sydd yn myn'd dan yr enw Moderniaeth. Nid yw Moderniaeth ond Hen Undodiaeth yn cael ei hategu gan ddulliau newydd o feddwl ac efrydu. [Diolch iddo am ei gyfaddefiad]. Yn ymarferol, cais yw i ddwyn Bywyd a Pherson Iesu Grist o fewn terfynau profiad dynoliaeth naturiol. Gellid dweyd am Undodiaeth Lloegr yn wir ei bod wedi diodd ef tynged hynod. Fel corff ymddengys ei dylanwad y tuallan i'r eglwys, mewn cyflwr o adfeiliad; nid yn y De yn unig, ond y Gogledd hefyd, lle y bu Undodiaeth am hir amser yn ddylanwad nerthol. Mae'r cynulliadau yn y capelau yn llai nag y buont [wn i yn yn y byd a fu efe erioed y tu fewn i'r un]. Mae aelodau y corff Undodaidd neu eu plant wedi drifftio i'r Eglwys [wedi *drifftio*, sylwer, nid wedi mynd oherwydd cyfnewidiad yn eu hargyhoeddiadau]. Ond y mae Undodiaeth wedi dial drwy heintio'r Eglwys neu rai o'i hoffeiriaid a'i lleygwyr â'r ysbryd Undodaidd. Mae'r llinell Ladin 'Graecia capta ferum victorem cepit' yn cyfateb yn hollol i hanes Undodiaeth ddiweddar. Gall fod llai o dduwinyddiaeth Undodaidd y tuallan i'r Eglwys nag oedd 21ain mlynedd yn ol; ond ofnaf fod mwy y tu fewn. Mae'n hynod fod athrawon duwinyddiaeth efengylaidd yr Almaen, o Dr. Harnack i lawr, wedi dysgu Undodiaeth bur. [Gwyddom ni hyny, ond ni wnai Dr. Weldon ei addef hyd y rhyfel ac hyd i'r *manifesto* ei alluogi i wneud ffrewyll o hono i'n fflangellu ni], ac y maent wedi dylanwadu'n fawr ar ychydig dduwinyddion Seisnig—Dr. Sanday yn eu plith. Gwnaiff y rhyfel ffyrnig sy'n ffynu yn awr yn Ewrop, a thros haner y byd, chwalu i ffwrdd y gnotai (halo) o ogoniant sy'n amgylchynu damcaniaethau yr Almaen mewn duwinyddiaeth fel mewn pethau eraill, oblegid fe ddaw ysgolheigion Prydain i ddeall fod gwadu Dwyfoldeb ein Harglwydd yn gynar neu yn ddiweddar yn arwain i'r diarddeliad o'i awdurdod moesol goruchaf." – *Church Family Newspaper* (*Feb. 12, 1915*).

* * *

Rhywbeth tebyg i hynyna yw y nerthoedd fydd gan Undodiaeth i ymladd yn eu herbyn. 'Nawr, yr wyf yn mhell o ddweyd nad oes dim rheswm yn hynyna i waeddi *Halt*, neu i arafu gyda'n gwaith cenadol; ond yr wyf am amgrymu nad yw pob anhawsdra ond swmbwl i'r gwir ddyn, pob anffawd ond hèr, pob gwrthwynebiad ond spardyn i fwy o waith. Yr wyf yn galw'r nerthoedd gwrthwynebol i gof, nid er mwyn i ni gilio 'nol o'r maes duwinyddol cyn delo'r drafferth, ond er mwyn i ni gau ein rhengoedd, a pharotoi ein harfau, a chadarnhau ein hamddiffynfeydd, a galw y crwydriaid yn ol, a deffro'r diofal, fel na chaffom ein dal yn an-

mharod, ac fel y gallo pob un sy'n hoff ganddo grefydd resymol, pob un sy'n cydnabod gwerth a phwysigrwydd ffydd gref, godi i'w hamddiffyn cyn byddo i'w dyddiau tywyll ein goddiweddyd. Credaf ei bod wedi ei roddi i ni i droi yn ol y dyddiau tywyll hyny, ond nid yw wedi ei roddi i'w troi yn ol drwy unrhyw gynllun o *laissez-faire*, neu beidio gwneud dim. Fe fydd byw ein ffydd os gwnawn ni sy'n ei charu brofi'n deilwng iddi gael byw. Nid oes dim ond teilyngdod all ein hachub.

Yn bresenol, er fod y nerthoedd yn ein herbyn yn llawer, nid ydym heb gynorthwywyr rhagorol. Daw rhyw bedwar o honynt i'm meddwl pan yn ysgrifenu.

1. Gwelwn gyffro newydd yn nghyfeiriad y sylweddol. Mae pethau arwynebol bywyd yn raddol yn gollwng ei gafael. Mae gwrywod a menywod, yn wyneb peryglon, yn dechreu teimlo gwagder llawer o'r pethau maent wedi arfer byw er eu mwyn, ac yn mhresenoldeb marwolaeth maent yn dysgu ystyr dyfnach bywyd. Mae pob cam yn nghyfeiriad y sylweddol yn enill i grefydd resymol. Oblegid nid crefydd y *fripperies*, a'r difyrwch, a'r melusion, a'r *respectabilities* yw ein crefydd ni. Gesyd eirchion trwm ar y deall, gorchymynion caled ar y gydwybod, awdurdod anwrthwynebol ar yr ewyllys. Dylai'r gwrthweithiad hyn yn erbyn yr arwynebol arwain i adnewyddiad bywyd y ffydd ryddfrydol.

2. Fel canlyniad y cyffroad hwn yn nghyfeiriad y sylweddol *fe roddir pwys cynyddol ar ffyddlondeb i argyhoeddiad.* Yr oedd dynion wedi syrthio i'r arferiad o feddwl nad oedd fawr pwys beth gredent, na pha beth wnaent, y gwnelai'r hen fyd ymsiglo yn ei flaen yn hollol foddhaol. Yr oedd yr athroniaeth gymodlawn,

> God is in his heaven,
> All is right with the world,

wedi ein gollwng i hun esmwyth a breuddwydiol; a phan welsom ffolineb a thwyll yn ymwthio dan gochl doethineb a gwirionedd, safasom yn segur, gan feddwl os cai ffolineb ddigon o raff yr aethai i ymgrogi; ond cawsom ddeffroad trwsgl—

> Truth has failed, will fail again
> Unless backed by truthful men.

Mae wedi cael ei ddangos ar gynfas aruthrol fawr fod yr hyn a gred dyn o'r pwys mwyaf. "Y mae cred yn dylanwadu ar fywyd, yn dechreu ar ei ddechreu, ac yn penderfynu ei holl hynt." Ac felly credaf y caiff dynion deimlad dyfnach o gysegredigrwydd ffyddlondeb mewn crefydd, a bydd y fath deimlad yn enill i Undodiaeth, a dichon iddo achub i ni y cyfryw o addolwyr *respectability*, ag ydynt yn barhaus yn drifftio at allorau Baal.

3. Caiff y ddysgyblaeth sydd wedi ei chynyrchu gan angenrheidrwydd y safle bresenol effaith iachusol ar ein bywyd crefyddol, ac o bosibl y caiff Rhyddid, yr hwn yr ydym wedi gosod label Penrhyddid arno, yn ngoleuni y dyddiau hyny, ei ddeall yn iawn fel Ufudd-dod i'r Deddfau Uwch. Hyn yn nghyda'r parodrwydd i wneud aberth ar bob llaw yw yr ol-eiddo (assets) pwysig i wrthweithio y dylanwadau niweidiol a beryglir gan ragfarnau a nwydau'r dydd.

4. Y mae genym yn wir gynorthwyon pwysig, nerthoedd a weithiant o'n tu. Cyfeillion i ni yw y llonderau, yr ingoedd, y cariad, a meddwl anorchfygol dyn. A mwy na'r oll, yni creadigol Yspryd Sanctaidd Gwirionedd. Nid atheistiaid ydym. Nid Duw marw a gredwn ynddo. Yr Yspryd a ysprydolodd, a arweiniodd, a nerthodd ein tadau i sefydlu y Ffydd Undodaidd, mae'n sicr yn alluog i'n cynorthwyo ni i'w noddi a'i pherffeithio a'i lledaenu; ac o bosibl y bydd yr hyn a ddywed ysgrifenydd enwog yn yr *Hibbert Journal* am adfeilion Louvain a Rheims yn gymwysiadol i ninau. Pam yr ingoedd hyn yn nghylch yr eglwysi cadeiriol sydd wedi eu dinystrio, fel pe byddent rywbeth na ellid eu gosod yn nghyd eto? Ni ddaeth yr eglwys gadeiriol i lawr yn *ready-made* o nef-

oedd oedd ar ol hyny wedi ei gau am byth. Rhodd Duw mae'n wir oedd, ond fe ddefnyddiodd yr Archadeiladydd offerynau dynol wrth ei gwneud, ffydd ddynol, dychymyg, aberth, dwylaw dynol. Mae'r byd yn llawnach o ddynion heddyw nag y bu erioed; yna pam yr anobaith am adeiladwyr? Ar ol pob un o'r amserau yn y gwahanol ganrifoedd y llosgwyd neu ddinystriwyd y "Lady of Chartres," cododd drachefn i fod yn ffynon ddiball addoliad, mor amhosibl ei chau ag yw gweddi a mawl y merthyron yn y carchar. Mae yn tarddu i fyny yn fwy nerthol a gwyrthiol ar ol pob gwaharddiad. Mae nwyf y bobl, mwyn a syml, a ddaru harneisio eu hunain wrth y ceryg aruthrol yn y maenglawdd, ac a'u llusgasant i Chartres, y rhai ni chaent un llaw yn yr adeiladu, na gosod un rhodd ar yr allor, nes y byddai pob un wedi gofyn neu roddi maddeuant; mae'r nwyf hwn yn llewyrchu yn y glass heddyw, yn codi'n dwr yn y maen, yn gyru dyn i lawr ar ei liniau, ac yna yn ei ddyrchafu drachefn megys ar adenydd annysgwyliadwy. Os gan hyny y cododd y fath Phœnix allan o'r fath ddinystr, ac os yw yn dwyn ei dystiolaeth ddysglaer i'n dydd ni, paham y mae'r gigfran ddu'n crawcian o hyd —*Never more!*

A hynyna yw'r ddameg—Gwrandewch yn awr beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr Eglwysi: Os ydych deilwng, oni wna'r un nwyf ddwyfol, yr un aberth, yr un ffydd ddwyn heddyw yr un ffrwyth? Wele yr ydwyf yn dyfod ar frys: dal yr hyn sy genyt, fel na ddwg neb dy goron di. Yr hwn sydd yn gorchfygu—mi a roddaf iddo y Seren Fore, ac mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i. Yr hwn sy ganddo glust, gwrandawed beth y mae'r Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.

LLIWIAU BLODAU.

Symbyliad Dechreuol Datblygiad Lliwiau yn y Blodau.

Y mae'n ddi-ameu fod y gwahanol liwiau sy'n addurno blodau yn gynhenid yng nghydwe (*tissue*) planhigion. Ac ni raid amrywio ond ychydig o'i natur elfenyddol cyn troi'r nodd yn y cydwe i liw coch, neu las, fel y mae galw. Gŵyr y darllenydd fel y mae dail Hydref yn gvflym newid lliw, gan ymddangos heddyw yn felyn, yfory yn binc, a thrennydd yn goch. Gellir dweyd yr un peth am ddail ieuainc y Gwanwyn. Dichon fod y lliwiau'n cael eu 'storio'n nghydwe planhigyn ar gyfer yr adeg pan fydd galw am eu gwasanaeth. Fe ddigwydd, weithian, i'r planhigyn flodeuo, pan drosglwyddir y lliwiau cynhenid hyn i'r blodyn er paentio'r gwullddail, ac addurno'r briodas.

Trefn Olynol y Lliw Gyfnewidiadau.

Cawn fod y blodau liwiau wedi dilyn yr isod fel trefn olynol eu hymddangosiad.

(1) *Melyn.* Dyma liw'r mwyafrif o'r blodau sy'n feddiannol ar adeiladaeth syml. Melyn hefyd yw'r blodau fuont y rhai cyntaf i ddatblygu, ac ymddangos, ar y ddaear.

(2) *Gwyn.* Ymhen amser, dechreuodd nifer bennodol o flodau raddol amrywio o'r melyn i'r gwyn.

(3) *Coch neu Gochlas.* Fel yr oedd y llysiau blodeuol (*Phaner-*

ogams) yn parhau i ddatblygu o'r syml i'r cymhleth, cawn nifer gymharol fechan o flodau cochion, neu gochleision, yn eu mysg.

(4) Mewn cyfnod diweddarach, yr ŷm yn dod ar draws blodau mwy amryliw, yn cynwys y lliw *lilac*, y lliw glas, a'r lliw *violet*.

Dyddorol dros ben yw astudio'r lliw gyfnewidiadau ym mlodeuad blodyn *neilltuol*. Er engraifft, cymerwn flodyn pur adnabyddus i blwyfolion Llandyssul, sef y *Yellow and Blue Scorpion Grass* (Myosotis Versicolor). Yr enw mwyaf cyffredin a rodda Cymro iddo yw Llysieuyn Cariad Glas a Melyn. Y mae hwn yn amrywio lliwiau'n ol y drefn ganlynol:—

(1) Yn union ar ol agor—lliw melyn gwelw.

(2) Ymhen rhai dyddiau—lliw coch gwan, neu bwl.

(3) Dyddiau olaf ei oes—lliw glas, sef yr un lliw ag eiddo teuluoedd eraill perthynol i'r un llwyth.

Arfer bur gyffredin yw hon ymysg blodau, ac y mae'r cyfnewidiadau'n cyfeirio ar un linell sefydlog, sef o felyn neu wyn, trwy binc, *orange*, coch, glasgoch (*purple*), i las. Ond dal sylw'n fanwl ar ymddygiad Llysieuyn y Fagwyr (*Wall-flower*), cawn ei ddilyn yn pasio o (1) liw gwynaidd (*Whitish*), trwy yn (2) liw Cedron-felyn (*Citron-yellow*), i yn (3) liw coch, neu, weithiau, liw *violet*.

Blodyn arall o gryn ddyddordeb yn y cyfeiriad hwn yw *Virginian Stock* cyffredin ein gerddi. Y mae'r blodyn ffres un niwrnod oed o liw melyn gwelw. Wedi hyn, y mae'n tueddu i droi'n binc. Yn nesaf, cawn ef yn paentio ei hun yn goch disglair, ac yn y diwedd, pan yn gwywo, fe fydd yn chwannog i ymwisgo ei hun mewn gwisg *mauve* neu las.

Blodau o Wneuthuriad Uchel a Dyrys yn Tueddu i fod yn Leision.

Fel ym myd adar, ac ym myd trychfilod, yr un fath ym myd blodau, y mwyaf eu dullnewidiad ar linell datblygiad, y mwyaf yr addurnwyd hwynt â'r lliwiau tyneraf a phrydferthaf. Ac yn ol y rheol, bychain o ran maint, a melynion, neu wynion, o ran lliw, yw'r blodau mwyaf syml, megis Crafanc y Fran, y Rhosyn, a Gwlydd yr Iar (*Chickweed*); pinc neu goch yw'r dosbarth nesaf uwch, megys Menyg y Gog (*Campions*), *Sandworts* (Llysiau'r Tywod), Pig yr Aran (*Crane's-bill*); glasgoch, *lilac*, neu las, yw'r blodau o gelfyddyd uwch eto, ac o ddatblygiad gor uchel, megys Tegeirian (*Orchis*), Pys, Crinllys (*Violet*); cochlas dyfnach, neu las disgleiriach, yw'r blodau o'r saerniaeth uchaf, megys Glas-y-Llwyn (*Harebell*), y Clafrllys (*Scabious*), Blodau Grug; a goleulas dwfn yw'r blodau uchaf o ran datblygiad, pendefigion y deyrnas lysieuol, megys Blodau'r Wefus (*Labiatae*)—rhai o honynt—Rhyddlwyn neu Llysiau Llywelyn (*Speedwells*).

Cymdeithas Agos Blodau a Thrychfilod.

Gwenyn ac eilierroed yw'r trychfilod sydd wedi eu dullio'n fwyaf cyfaddasol, o ran ffurf corff a genau, ar gyfer sugno mel, ac ymborthi ar flodau. Hwy, hefyd, fel y sylwasom yn barod, sy'n dewis y lliwiau mwyaf tyner a tharawiadol. Hoffach ganddynt y blodau cymhleth a thyner liwiog na'r rhai syml a chysefin liwiog. Yr un modd, y mae'r blodau sy'n feddiannol ar liwiau tyner a disglair (ysgarlad, cochlas, glas, &c.), nid yn unig yn gymhwysiadol o ran ffurf allanol i groesawu trychfilod, ond canfyddir fod eu chwarennau mel (*Honey glands*) wedi eu gosod yn y lle mwyaf manteisiol er galluogi gwenhynen, eilier, a gwyfyn, i'w gwasanaethu'n ffyddlon a chyflawn. Y mae'r blodau pendefigol hyn wedi diosg y melyn a'r gwyn, a gwisgo'r ysgarlad, y coch, a'r glas. O'r tu arall, y mae'r trychfilod urddasol—y rhai a ddatblygasant yn gyfredol â'r blodau o

waed uchel, ac a fuont yn gymorth i'r olaf i ddatblygu—wedi dysgu i adnabod, ac edrych ar, liwiau tyner blodau, fel arwyddion mai'r olaf sy'n talu ore am eu trafferth, ac yn cynyg iddynt y dogn mwyaf o fêl yng ngwyneb y mesur lleiaf o lafur.

Y casgliad naturiol yw fod y blodau syml, y cyfryw a ewyllysiant lynu trwy'r cyfnodau wrth eu dulliau cysefin, a dibynnu ar fân ddrychfilod, yn parhau'n felynion, neu wynion ; fod y blodau o wneuthuriad mwy dyrys, ac a groesawant ddrychfilod mwy dyrchafedig, wedi gwrthod y lliwiau melyn a gwyn, a derbyn y lliwiau pinc a choch ; ac yn ddiweddaf oll, fod y sawl a ymgyfeillachant â'r trychfilod mwyaf perffaith o ran ffurf (gwenyn, eilierroed, &c.), yn ymwisgo mewn lliwiau sy'n awgrymu ffurfafen a môr. Ac y mae ymchwiliadau dyfal a gofalus gan naturiaethwyr yn llwyr wirio a chadarnhau'r casgliad uchod fel ffaith ddi-amheuol. Y mae natur y berthynas rhwng blodau a'r bywyd trychfilaidd yn ddyddorol dros ben. Y mae'r ffeithiau hyn yn gwneud i fyny bennod brydferth yng nghyfrol euraidd Natur—pennod sy'n ein swyno fel Chwedl Rhamant.

Mân bryfed o bob math sy'n arferol o ymweled â'r blodau syml—blodau sy'n berchen ar gwpanau rheolaidd a chymesurol, megys Blodau'r Ymenyn (*Buttercups*), Melyn y Twynau (*Tormentil*), Gwlydd (*Chickweed*), &c.,—ac yn sicr melyn neu wyn yw mwyafrif mawr o'r dosbarth hwn.

Trychfilod o radd uwch sy'n ymweled â blodau mwy neu lai amgauedig (*enclosed*)—blodau ydynt o ffurf fwy cyfrwys—megys *Stocks*, Menyg y Gog (*Campions*), &c. Pinc neu goch yw lliw rhai'n. Trychfilod neilltuol a phenhodol (Gwenyn, Gwenyn Meirch, Clêr, &c.), sy'n ymweled â blodau o ddullwedd anghymesurol (*Unsymmetrical*) ac unochrog—blodau sy'n feddiannol ar neilltuolrwydd ffurf—megys Tegeirian (*Orchis*), y Feioled (*Violet*), Pys, &c. Ceir fod rhai'n yn fynych yn gochleision, ac, ambell waith, yn leision.

Y mae blodau o urdd uwch eto, blodau a ŷnt wedi eu hurddasu â saernïaeth brydferth ac ardderchog dros ben, megys Glas-y-Llwyn (*Harebell*), Clafrllys y Cae (*Field Scabious*), y Grugos Groes Ddalennog (*Cross-leaved Heath*), yn gochleision, neu leision, bron i gyd.

Cyn cwblhau'r erthygl hon rhaid i ni enwi un dosbarth yn rhagor, sef y dosbarth a gynrychiolir gan Lafant (*Lavender*), Llysiau'r Gerwyn (*Ground Ivy*), Cribau Sant Ffraid (*Wood Betony*), Llysiau Taliesin (*Brooklime*), Rhyddlwyn (*Speedwell*), &c. Dyma'r blodau mwyaf tlws yn ein gwlad. Datguddiant gelfyddydwaith cywrain iawn. Y mae iddynt goronig bibellog unochrog. O ganlyniad, y maent yn cario coron o wullddail a wna gydfyned â ffurf afreolaidd. Cochlas glwys a hyfryd yw lliw lleiafrif o honynt, ond am y gweddill, maent mor las a telaid a pumed lliw yr enfys.

Fe bletha'r Huan felyn wen
Fodrwyau aur i addurno mhen ;
Dywenydd wyf i gyd !
Dan nefoedd las mae'r hafddydd mwyn
Yn annog ysbryd îr y llwyn
I sibrwd, "Gwyn dy fyd" !

Dywenydd blodau yn fy nghol,
Mi rodianaf drwy y ddol,
Yng nghwmni mill a rhos ;
Mil fyrdd o flodau dan fy nhraed,
(Mewn blodyn ni chaf dwyll na brad)
Mi ganaf gnûl pob croes.

Gan symud âf i'r du las gûdd,
Gael gorwedd 'mhlith y teim a'r gwlydd,
Ymhell o'r dref a'i 'stŵr ;
A chanu im' mae Teifi loyw
Wrth dywallt maes o'i chwpan groyw
Cyfrinion fil ei dŵr.

Hir syllu'r wyf trwy gysgod dail
Ar ddawns y weirglodd yn yr haul :
Cyfeddach tegwch yw !

Y blodau'n cadw lawen wyl,
A minnau'n llawn o hylon hwyl :
Hyfrydwch byth yw byw !

Middleton. T. M. PHILLIPS.

"HER I UNDODIAID."

MR. GOLYGYDD,—

Yn YMOFYNYDD Awst gwelaf fod gohebydd a guddia ei hunaniaeth o dan yr enw "Amaeth" yn amheu fy nghasgliadau ynghylch diffyg rhagoriaeth moes Undodiaid ar enwadau ereill, ac yn dweyd fy mod yn gwneyd "cam dybryd" â theuluoedd Undodaidd Ceredigion trwy fy "nghyhuddiadau." Nis gwn pwy all yr ysgrifenydd hwn fod, ac nid yw fawr o wahaniaeth genyf ychwaith, ond buasai genyf fwy o barch iddo a mwy o feddwl am dano pe bae wedi dangos mwy o wroldeb i roi ei enw priodol ar ol ei ysgrif.

Cyn gwneyd ymosodiad ar unrhyw erthygl byddai yn ddoeth i'r ymosodydd ddarllen yr erthygl hono yn ofalus yn gyntaf. Mae'n amlwg nad yw "Amaeth" wedi gwneyd hyn, canys priodola imi amcanion na ddywedir dim am danynt yn fy ysgrif, ac na ddaethant erioed i'm meddwl. Fy amcan oedd ceisio dangos i Undodiaid nad yw'r dyb gyffredin yn ein plith ein bod yn well ein moes na'r mwyafrif o grefyddwyr ddim yn wir, ond y dylai fod yn wir, am fod ein hegwyddorion, neu beth bynag ein proffesiadau crefyddol yn uwch, a'r pwys roddwn ar weithredoedd da yn fwy na'r eiddo y gweddill mawr o'n cyd-ddynion. Eithr dywed "Amaeth" y cymeraf gryn drafferth i wneyd y gymwynas a'm cyd-grefyddwyr o geisio profi iddynt eu bod *lawer iawn yn waeth* eu moesau na'r hen bobl gynt. "Hona hefyd," meddai am danaf, "fod y genedlaeth hon o Undodiaid yn ymroi mwy i ddiodydd meddwol na'r hen dô—yn wir, eu bod yn fwy gwingar na'r cyffredin o breswylwyr ein gwlad." Ceir yma dri cyhuddiad yn fy erbyn, a'r tri yn hollol ddisail. Beiddiaf "Amaeth" i brofi i'r gwrthwyneb trwy ddyfyniadau o fy erthygl. Nid cymharu Undodiaid y presenol a'r gorphenol oedd fy amcan, ac ni wnaf hyny mewn un man ymhellach nag y gellir ei gasglu oddiwrth y dyfyniad rodda. Ni ddywedaf ein bod yn *fwy* gwingar na'r mwyafrif o breswylwyr ein gwlad, eithr yn hytrach nas gallaf ddweyd ein bod yn llai agored na hwy i'r pechod hwn. Gwir y cyfeiriaf at un arferiad—yr arferiad o ranu diodydd meddwol mewn arwerthiadau—a gallwn hefyd enwi yr un o roi cwrw i'r gweithwyr, ac hyd yn od i blant, ar adeg cynhauaf gwair, a wna yr "Ysmotyn Du" yn waeth yn hyn o beth nag un ardal arall, mor bell ag y gwn, yn y Sir. Ni ddywedaf mai Undodiaid yn unig sydd yn euog o'r arferion hyn—gwn fod ffermwyr y cylch, gan mwyaf, gan nad i ba enwad y perthynant, yn euog o honynt—ond dywedaf eu bod yn warth i'r ardal, ac yn hèr barhaus i bob crefyddwr proffesedig i'w

diddymu ; a chan mai awyrgylch a dylanwad Undodaidd sydd yn fwyaf neillduol yn y rhanbarth yma, mae ein cyfrifoldeb yn fwy, a dylai ein cywilydd fod yn fwy o'u plegyd. Ceisia "Amaeth" brofi nad yw canolbarth Ceredigion yn llai sobr na rhanau ereill y Sir trwy ddweyd y dengys ystadegau llysoedd yr ynadon hyny, ond ni rydd yr ystadegau, a chyda llaw, ni ddywedais i ddim ar y pwnc yn fy ysgrif. Ond gan ei fod ef wedi cyfeirio at y mater, beiddiaf ddweyd fod mwy o yfed gwirodydd meddwol yn rhanau gwledig canolbarth y Sir nag yn un ran arall ohoni. Dywedaf hyn yn rhanol ar yr hyn ŵn fy hun. Mae yna bentrefi ag ardaloedd cyfain yn ardal Aberystwyth heb un tafarndy yn agos atynt, ond yn fwy neilltuol ar dystiolaeth ereill sydd yn gwybod am bob cwrr o'r Sir bron. 'Dyw ystadegau llysoedd yr ynadon yn un prawf faint o yfed sydd mewn ardal, fel y gŵyr pawb sydd wedi astudio'r pwnc o gwbl. Ar y goreu, nis gallant brofi rhagor na fod mwy o feddwon terfysglyd mewn un ardal na'r llall—yr hyn sydd yn beth hollol wahanol i ddweyd fod mwy o yfed yn y cyntaf na'r olaf—ond fynychaf ni phrofant ragor na fod yr heddgeidwaid yn fwy gwyliadwrus mewn un rhanbarth na'r llall. Na, yn sicr, gyfaill, ni raid i Ddirwest wrth ddim ond y gwirionedd er ei ategu, ond *gofyn y gwirionedd a'r holl wirionedd.* A gofyn y gwirionedd ini gyfaddef fod canolbarth Ceredigion, lle mae ein cyfrifoldeb ni fel Undodiaid fwyaf, yn fwy parod i bechu yn ei herbyn na'r un ran wledig arall o'r Sir. Nid yw o un daioni i gymharu'r wlad a'r trefydd yn y mater hwn, gan fod yr amgylchiadau yn hollol wahanol. Gofyn gwirionedd genym hefyd gyfaddef nad ydym ni fel enwad Undodaidd yn gwneyd nemawr, os dim, dros ddirwest yng Nghymru. 'Does gyda ni, mor bell ag y gwn, yr un gymdeithas nac adran o gymdeithas a'i hamcan i hyrwyddo sobrwydd ymhlith y bobl, er, fel y clywyd gan y Parch. T. Lloyd Jones yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Llanbedr, fod yna un wedi bod. Mae hyn eto yn achos y dylem gywilyddio o'i blegyd, a gwneyd yr hyn oll a allom i ddiwygio yn y dyfodol. Yn anffodus, 'rwy'n ofni nas gall "Amaeth" na neb arall wadu nad oes yna yr un enwad crefyddol trwy yr holl wlad a wna lai dros ddirwest na'n henwad ni. Mae'n bosibl y bydd yn newydd iddo ef ac i lawer o'ch darllenwyr nad oedd ond 321 o aelodau yn perthyn i'r Gymdeithas Undodaidd Ddirwestol Genedlaethol y llynedd. Pan gofiwn fod yna filoedd lawer o Undodiaid proffesedig yn y wlad i gyd, mae'r nifer uchod yn gywilyddus o fach, a rhoddaf wahoddiad cynes i "Amaeth" ac i bob Undodwr arall nad yw eisoes yn aelod i ddod yn un. Gall felly wneyd mwy o ddaioni i'r ffydd Undodaidd na thrwy wneyd ymosodiadau disail ar un deimla yn ddwys ffaeleddau'r enwad, ac un o amcanion penaf yr hwn yw ceisio eu gwella.

Achwyniad arall sydd gan "Amaeth" yn fy erbyn yw fod fy ymresymiad yn "hynod o lac a di-bwynt" yn yr engraifft roddaf o ddiffyg ffyddlondeb Undodiaid i'w hegwyddorion. Mae'n wir ar y wyneb fod rhywbeth yn ei ymresymiad nad teg beio tair rhan o wyth o'r etholaeth am beidio dewis mwyafrif cynrychiolwyr y plwyf; ond anghofia fod yn agos saith rhan o wyth o'r etholwyr yn Ymneilltuwyr, ac y proffesa bron yr oll o honynt eu hunain yn Rhyddfrydwyr. Mae'n amlwg felly fod oddeutu haner Ymneilltuwyr y plwyf wedi troi yn fradwyr i'w hegwyddorion yn yr etholiad diweddaf. Ond paham y beiaf Undodiaid y plwyf am y canlyniad hwn? Nid ydynt hwy ond oddeutu tair rhan o wyth o'r etholwyr, ac hyd yn od pe baent oll wedi sefyll yn ffyddlon i'w hegwyddorion, nis gallent gario eu hymgeisydd, pe bae'r lleill i gyd yn eu herbyn. Eithaf gwir, dyna ddesgrifiad digon cywir o'r hyn allasai fod wedi digwydd, ac yn agos iawn o'r hyn ddigwyddodd unwaith, flynyddau yn

ol, mewn etholiad Cynghor Sirol yn y plwyf, pan y safodd yr Undodiaid bron wrthynt eu hunain dros egwyddorion Rhyddfrydiaeth. Ond yn anffodus nid felly y bu yn yr etholiad diweddaf; a phe bae "Amaeth" yn gwybod hanes yr etholiad hwn cystal ag y gwn i prin y credaf y byddai wedi cyfeirio ato o gwbl, am mai goreu i gyd po leiaf ddywedir am dano, mor bell ag y mae ceisio amddiffyn ffyddlondeb Undodiaid i'w hegwyddorion yn myn'd. Yn wir, yn fy marn i, mae'r amgylchiadau yn waradwyddus, a digon yn awr yw dweyd fod Undodiaid blaenllaw yn gweithio yn gyhoeddus dros yr ymgeisydd Toriaidd, yn *canvaso*, fel y dywedir, drosto, ac yn gwneyd eu goreu yn erbyn yr ymgeisydd Rhyddfrydig, er ei fod yn Undodwr ei hun. Mae'n bosibl y dywed rhai eu bod wedi cael rhyw achos dros wneyd hyny, ond 'does yna yr un achos gyfiawnha unrhyw un dros fradychu ei egwyddorion. Dyma sylwedd y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan y sonia Iesu Grist am dano, am y dylai egwyddorion dyn fod y pethau mwyaf santaidd sydd ganddo. "Pa leshad yw i ddyn os enill efe yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun?" Ac wrth werthu ei egwyddorion mae perygl iddo golli ei enaid. Unwaith eto, ni ddywedaf fod Undodiaid fel cyfangorph yn waeth eu moesau nag aelodau enwadau ereill, ond y dylent fod yn well, ac nad ydynt.

D. J. DAVIES.

[*Caiff "Amaeth" gyfle i ateb, os dewisa, yna terfynir y ddadl hon.*—GOL.]

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Brondeifi, Llanbedr, dyddiau Mawrth a Mercher, Awst y 3ydd a'r 4ydd. Yr oeddent yn gyfarfodydd neillduol o lwyddianus. Yn mhob oedfa teimlem y gallasem fenthyca brawddeg Pedr a dyweyd, "Da yw i ni fod yma." O'r dechreu i'r diwedd cafwyd cynulliadau rhagorol. Yr oedd y capel yn orlawn prydnawn a hwyr Mercher. Deallwn i amryw fethu gwneud eu ffordd i mewn i wasanaeth yr hwyr. Yn gwneud i fyny y gynulleidfa yr oedd cynrychiolwyr o'n holl eglwysi yn y cylch—o Gellionen; H.D.C., Aberdar; Clydach Vale; Glanrhondda (da oedd genym weled yr hen frawd John Jones, Tonypandy), a rhyw bump ar hugain wedi dod drosodd mewn modur-gerbyd o Gefncoedcymmer, yn nghyd a nifer luosog o bobl perthynol i wahanol enwadau o Lanbedr a'r cylch. Mae cynulleidfa dda yn help i gael oedfa dda. Credwn mai dyna ran o'r esboniad ar lwyddiant y cyfarfodydd hyn. Yr oedd y gwrandawiad yn rhagorol o astud a chynorthwyol, a'r canu o dan arweiniad ein cyfaill ieuanc, Mr. L. Terwyn Davies, yn bobpeth allesid ei ddisgwyl.

Cyfarfodydd pwysig yn hanes eglwys Brondeifi a'i chwaer-eglwys, Caeronen, oedd y cyfarfodydd hyn, canys yr oeddent nid yn unig yn uchel-wyl y Gymdeithas, ond hefyd yn gyfarfodydd sefydlu gweinidog newydd, sef Mr. T. Oswald Williams, B.A., fel olynydd i'r Parch. R. C. Jones, yr hwn sydd wedi ymddiswyddo ar ol gwasanaethu eglwys Caeronen er 1871, a Brondeifi er

1876, ac ar ol bod yn y weinidogaeth am y cyfnod maith o 48 o flynyddoedd.

Nos Fawrth cynhaliwyd cyfarfodydd pregethu yn Caeronen a Brondeifi. Pregethwyd yn y blaenaf gan y Parchn. Eric Davies, Pontypridd, a D. G. Rees, Gellionen. Deallwn iddynt gael oedfa hwylus ac fod gweinidog yr Annibynwyr ac offeir-y Plwyf yn bresenol.

Pregethwyd yn Brondeifi gan y Parchn. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, a Simon Jones, B.A., Abertawe.

Boreu Mercher, am 10.30, traddododd y Llywydd, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. (mab y Parch. R. C. Jones), Aberystwyth, ei anerchiad. Ei destun oedd "Dyledswydd yr eglwysi tuag at y Weinidogaeth," a chafwyd anerchiad rhagorol iawn. Ymdriniodd Mr. Jones â'r pwnc mewn ffordd fedrus, ymarferol, a neillduol o hapus—er iddo weithiau ddweyd "pethau plaen" dywedodd hwynt mewn dull boneddigaidd a charedig. Yr oedd yr anerchiad ar ei hyd yn nodedig am ei naws grefyddol. ac amlwg oedd fod y pregethwr heb farw yn Mr. Jones eto. (Gweler yr anerchiad yn y Rhifyn hwn). Yn y prydnawn cafwyd dwy bregeth ardderchog eto—y naill (yn Seisneg) gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, a'r llall gan y Parch. Eric Davies.

Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod mawr y dydd, sef y cyfarfod sefydlu. Llywyddwyd yn y cyfarfod hwn, yn ogystal ac yn y gwasanaethau ereill gan yr hen weinidog, y Parch. R. C. Jones.

Traddodwyd y siars i'r gweinidog gan y Parch. D. Evans, Cribyn, a'r siars i'r eglwysi gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, a rhoddodd y ddau anerchiadau llawn o synwyr a chynghorion da. Os llwydda y gweinidog a'r ddwy gynulleidfa i fyw yn weddol agos i'r delfrydau osodwyd o'u blaen gan y ddau bregethwr, mae amser hapus, llawn o waith a mwynhad yn eu haros, ac hyderwn yn fawr iawn mai felly y bydd. Y ddwy siars drosodd datganodd tri, sef yr oll o weinidogion Anghydffurfiol Llanbedr, ar hyn o bryd—y Parchn. D. Oliver (W.), D. Jones (B.), ac Evans, (A.)—eu llongyfarchiadau a'u teimladau da i'r gweinidog a'r cynulleidfaoedd. Dilynwyd hwy gan y Parchn. T. Lloyd Jones, Lerpwl, a James Jenkins, Birkenhead. Yna diolchodd y gweinidog newydd i bawb am eu presenoldeb a'u dymuniadau da, &c.

Dechreuwyd y gwahanol oedfaon gan y Parchn. John Davies, Alltyplacca, Lewis Williams, Rhydygwin, a Mr. Lewis Morgan, Clydach-ardawe. Yr oedd yn bresenol heblaw y rhai a enwyd uchod y Parchn. D. Cellan Evans, Merthyr Tydfil; J. Carrara Davies, Cefncoed; Mr. Josiah R. Jones (Llywydd y Gymdeithas am y flwyddyn nesaf), a Mr. D. Martin Jones (Trysorydd y Gymdeithas).

Blin oedd genym fod Ysgrifenydd y Gymdeithas yn methu bod yn bresenol oherwydd afiechyd. Bydd yn dda gan ddarllenwyr YR YMOFYNYDD gael ar ddeall fod Mr. Thomas wedi llwyr wella erbyn hyn.

Yr oedd y darpariadau yn nglŷn a'r bwyd yn deilwng o haelioni arferol Brondeifi. 'Roedd pawb, yn hen ac ieuanc, yn wryw a benyw, a'u holl egni yn rhoi croesaw i'r dieithriaid.

Wele gyfres ardderchog o gyfarfodydd wedi mynd i blith y pethau a fu, ond credwn y bydd i'w dylanwad aros am lawer blwyddyn. Wele hen weinidog wedi ymneillduo o'r maes ar ol gwasanaeth hir. Hyderwn y ca flynyddoedd lawer o seibiant a thawelwch cyn "cyrhaedd pen y daith." Wele weinidog ieuanc wedi dechreu ar ei waith, a dwy gynulleidfa yn dechreu ar gyfnod newydd. I'r naill a'r llall dymunwn o waelod calon "Duw yn rhwydd a phob daioni."

Cafwyd cynhadledd ddyddorol prydnawn Mawrth am 4.30, a chyfarfu pwyllgor y Gymdeithas boreu Mercher am 9. Ceir adroddiad o weithrediadau y pwyllgor gan arall.

E. O. J.

PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.

Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol y Gymdeithas yn Mrondeifi ddyddiau Mawrth a Mercher, Awst 3 a 4, 1915. Y Llywydd, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., yn y gadair. Yn y gynhadledd prydnawn Mawrth gosodwyd ger bron awgrymiadau er adrefnu a diwygio y dull a'r modd o gynal y cyfarfodydd chwarterol. Gohiriwyd y mater er ymgynghori â'r eglwysi. Yn mhwyllgor yr Ysgol Sul cafwyd adroddiad gan yr Ysgrifenydd, ac apwyntiwyd y Parchn. David Evans, Lewis Williams ac E. O. Jenkins i barotoi Maes Llafur ar gyfer y flwyddyn nesaf. Boreu dydd Mercher, y Llywydd eto yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cwrdd diweddaf. Pasiwyd fod y *grants* arferol yn cael eu gwneud i Caeronen a Chapelycwm, sef £2 yr un, ac ar yr amodau arferol, Pantteg £5, gweinidog y Ciliau £10, a'r swm arferol i weinidog Capelycwm os ydyw ei gyflog islaw y *minimum;* y swm arferol i Olygydd YR YMOFYNYDD, a £10 i Drysorfa y Llyfr Emynau. Dewiswyd Mr. Josiah Jones, Garthowen, yn Llywydd am y flwyddyn nesaf, y Parch. T. Arthur Thomas yn Is-Lywydd, ac ail-etholwyd y Swyddogion ereill. Pasiwyd fod y canlynol i fod yn aelodau'r Pwyllgor Arianol—y Parchn. R. J. Jones, M.A., David Evans, E. O. Jenkins; Mri. W. S. Jones, M.A., M.Sc., T. G. Thomas, Talgarreg; John Evans, Ysgrifenyddion Hen Dy Cwrdd, Aberdar a Gellionen yn nghyd a'r Swyddogion. Y Pwyllgor Cynghorol—y Parchn. R. J. Jones, John Davies, a'r Ysgrifenydd. Pwyllgor Coleg Caerfyrddin — y Parch. John Davies, W. S. Jones, a'r Ysgrifenydd. Dewiswyd Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. i fod yn Ysgrifenydd Cymdeithas Addysgol y Myfyrwyr mewn canlyniad i ymddiswyddiad y Dr. D. J. Davies, B.A. Etholwyd is-bwyllgor yn cael ei wneud i fyny o'r Llywydd, y Cyn-Lywydd a'r Ysgrifenydd, er gwneud ymchwiliadau yn nghylch *Trust Deeds*, &c. perthynol i gapeli Cwmmwrdu, Penrhiw, Pantteg, St. Clears, Rhydyparc, a'r Onenfawr. Addawwyd y swm o £50 gan aelod o'r Gymdeithas ar yr amod fod yr eglwysi yn casglu £150 yn ystod y chwech mis nesaf. Amcenir i'r Drysorfa hon fod yn barhaol ac at wasanaeth materion perthynol i'r enwad. Y mae y Llywydd a'r Cyn-Lywydd wedi addaw ymgymeryd at y gwaith o geisio casglu y swm uchod, ac y maent eisoes wedi dechreu ar y gwaith. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad a Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, ac hefyd a'r Ysgrifenydd yn eu hafiechyd. Yr Ysgrifenydd i ymohebu yn nghylch lle cynhaliad cyfarfodydd y Pasg a'r rhai blynyddol. Pasiwyd y pedwar penderfyniad canlynol o'r pump gynygiwyd gan Dr. D. J. Davies :—

1. Y dylai cenhedloedd yn ogystal ag unigolion gael eu rheoli gan egwyddorion addysg Iesu Grist.
2. Y rhaid gwneud cyfiawnder a brawdgarwch yn bethau penaf yn nghysylltiadau gwahanol wledydd yn y dyfodol.
3. Y dylid penderfynu pob dadl rhwng y gwledydd trwy ffyrdd iawnder a chymod.
4. Y dylai'r teimlad o frawdgarwch a'r awydd am adgymod reoli ein safbwynt tuag at ein gelynion yn ogystal yn nygiad y rhyfel yn mlaen ac yn gwneuthur heddwch.

Pasiwyd y penderfyniad canlynol ar gynygiad y Parch. T. Lloyd Jones :—

"That this annual meeting of the South Wales Unitarian Association whilst fully appreciating the measures adopted to end the suffering caused by drink in the industrial efficiency of the people, greatly regrets that nothing has been done to meet the demands of the manufacturers of war materials for prohibition during

the war; and believing that such a measure would alone meet the present needs of the nation; strongly urges the Government to prohibit the liquor traffic throughout the country as long as the war lasts, and the meeting pledges itself to support effective action in this direction."

ADOLYGIADAU.

GEIRIADUR CYMRAEG A SEISNIG SPURRELL (dan olygiaeth J. Bodvan Anwyl. Caerfyrddin: Spurrell, 3/6). Gyda phleser mawr y cymeradwywn y geiriadur newydd hwn i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD. Y mae yn werth llawer yn ychwaneg na thri a chwech fel arweinydd diogel i sillebiaeth gywir o eiriau Cymreig. Dilyna'r golygydd, gydag un eithriad, y dull o sillebu a gymeradwyir gan yr ysgolheigion a benodwyd gan "Y Gymdeithas er Defnyddio'r Iaith Gymraeg," i sefydlu'r orgraff, rai blynyddau yn ol. Ceir adroddiad y pwyllgor hwnw ar werth am swllt, gan Gwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, Caernarfon. Gyda'r llyfryn bychan hwn, a Gramadeg Syr Edward Anwyl, a Geiriadur Bodvan Anwyl wrth law, dylai bob Cymro gar ei iaith ysgrifennu Cymraeg cywir, unffurf.

Heblaw'r geiriau a arferir yn gyffredin heddyw, cynhwysa'r Geiriadur lawer iawn o hen eiriau da fydd yn help i'r efrydydd i ddeall clasuron boreu llenyddiaeth ei wlad. Yn anffodus, nid yw mor gyflawn ag y dymunem yn y cyfeiriad yma, ac nis gwyddom am un geiriadur sydd yn allwedd aur i'r "Gododin" a darnau boreuol eraill. Gobeithio y gwna'r golygydd helaethu ei eirfa bob tro y bydd galw am argraffiad newydd. Diolchwn iddo am ei wasanaeth gwerthfawr, a dymunwn bob llwyddiant i'r anturiaeth.

Llyfrau bychain tlws neilltuol a llawn o bethau da yw eiddo y Proff. O. M. Edwards yng "Nghyfres y Fil." Yn ddiweddar, cyhoeddodd ran gyntaf o "FRUT Y TYWYSOGION." Hanes helyntion y Cymry yn yr hen amser geir yma, wedi ei ysgrifennu, fel y tybir, gan un o fynachod Ystrad Fflur, tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Dyddorol iawn, os trist, yw'r hanes, a thafla lawer o oleuni ar helyntion Ceredigion yn y cyfnod tywyll, rhyfelgar yma. Y mae'r golygydd wedi newid ychydig ar Gymraeg y y croniclydd fel ag i'w wneyd yn ddealladwy i ddarllenwyr yr oes hon.

Bydd yn dda gan rai o'n darllenwyr gael rhai o weithiau Sion Cent mewn cyfrol hylaw, ddestlus. Mynent "SION CENT" yn Nghyfrol y Fil. Cant ddarlun o'r hen frawd hirben a llawer o ddarluniau eraill hefyd, a'r oll am ddeunaw ceiniog, wedi ei rwymo'n gryf a destlus. Dylaswn fod wedi dweyd hefyd fod geirfa ar ddiwedd y llyfr yn esbonio geiriau anghyfarwydd.

Mae'r *Geninen Eisteddfodol* yn llawn gwerth swllt. Y mae ynddi doraeth o englynion, ychydig awdlau a llawer o bryddestau byrion gwir dda. Yn eu plith y mae pryddest y Parch. T. Oswald Williams ar "Ieuan Brydydd Hir," yr hon a enillodd y gadair yn Llanbadarn Fawr yn 1914. Rhyw niwl crebwyllol heb grynhoi'n feddylddrych clir sydd yn y penill cyntaf, ond ar ol hwn ceir darnau gwir dda. Palla gofod i ni fanylu.

J. ISLAN JONES.

BEDYDD.

NOS SUL, GORPHENAF 25, bedyddiwyd Morfudd Peare, merch Edward Chard, Ostler, 9, Bwllfa Road, Cwmdar, a'i briod, Mrs. Elizabeth Chard, yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, gan R.J.J.

PRIODASAU.

DYDD SADWRN, GORPHENAF 31, unwyd mewn glan briodas yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, David Rees Davies, Llewelyn Street, â Miss Myfanwy Lewis, Ty'r Capel—R.J.J. yn gwasanaethu. Mr. Davies yw organydd y capel er's blynyddau.

"Na sonier ond am un syniad—un
Fo'n sail cydymdeimlad; [serch
Oes hir, heb unrhyw sarhad,
I chwi bellach, heb balliad."

AWST 7, yn Capelybryn, gan y gweinidog a'r cofrestrydd, unwyd mewn priodas Mr. Evan Williams, Llanbedr, â Miss Mary Price, Southend, Cwrtnewydd.

MARWOFION.

GORPHENAF 29, ar ol cystudd cymharol fyr, bu farw Daniel Davies, Tyncornel, Llanwenog, yn 62 oed. Bywyd tawel, diymhongar, fu ei fywyd ef, a threuliodd yr oll o hono yn y gymydogaeth uchod. Ar gyfrif ei ddidwylledd a'i ddiniweidrwydd, yr oedd yn un a fawr hoffid gan bawb a'i hadwaenai. Cymerodd ei gladdedigaeth le y dydd Llun canlynol, yn Nghapelygroes, pryd y daeth nifer luosog ynghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Awd drwy y gwasanaeth yn y ty gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd, a phregethwyd yn y capel gan weinidog y lle. Iawn yw cofnodi yma ei fod wedi gadael £40 at yr achos yng Nghapelygroes, yr hwn, er nad oedd yn alluog i fynychu'r gwasanaeth yn aml, oedd (fel y mae yn amlwg) yn agos iawn at ei galon.

GORPHENAF 29, yn 17 mlwydd oed, Elizabeth, merch David a Hannah Morgan, Arosfa, Trebanos. Bu ein chwaer ieuanc yn wanaidd ei hiechyd am lawer o flynyddoedd. Ymfoddlonodd o dan bwysau ei nychdod blin, a chafodd y gefnogaeth a'r nodded mwyaf tadol a

mamol fedrai rhieni roddi. Anhawdded ffurfio brawddeg i goffadwriaeth rhian mor ieuanc. "Machluddodd ei haul a hi eto yn ddydd." Yr oedd Bessie yn adnabyddus led-led y gymydogaeth. Talodd lawer i ymweliad â ni, a bydd ei choffa hi yn aros ar ein meddwl, fel y glŷn eiddew am wyrog gaer. Yr 31ain cynfisol, hebryngwyd ei phabell o bridd i fynwent Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees. Eiddunwn ar y Tad goreu i fod yn bob cysur a nerth i'r tad a'r fam, ac i'r plant lluosog ydynt ar ol, yn galaru ar ol un oedd mor anwyl ganddynt.

Bessie anwyl, O mor gynar
Y gwynebaist Wynfa dlos,
Ninau yma ar y ddaear
Yn hiraethu ddydd a nos;
Fe ddaw dydd ein symud ninau
I dueddau Salem lân,
A chawn esgyn heibio'r dagrau –
O! mor felus fydd ein cân.

AWST 13, yn 53 mlwydd oed, Rachel McBride, Neuaddlwyd Cottage, Ciliau Aeron. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar Mr. John Evans, Esgeronw, a bu am flynyddoedd mewn gwasanaeth gyda'i hewythr, Mr. Joseph Jones, Gilfachddafydd. Deallwn fod yr ymadawedig wedi cael cystudd maith a chaled, yr hwn a ddioddefodd yn dawel iawn. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohoni yn Pantdefaid, lle yr oedd yr ymadawedig yn aelod flynyddau yn ol, a lle y mae cymaint o'i pherthynasau agos wedi ei blaenu. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle. Gadawodd briod, brawd, a chwaer, a pherthynasau eraill mewn galar o'i cholli.

AWST 24, bu farw yn 69 oed, William Gething, mab hynaf y diweddar Thomas Gething, wyr i William Gething, o'r "Horse and Groom" gynt, ac orwyr i'r Parch. Thomas Evans (1764--1833), Thomas Glyn Cothi, gweinidog Hen Dy Cwrdd, Aberdar, o'r flwyddyn 1811 hyd ei farwolaeth. Y Llun canlynol, daearwyd ei weddillion yn Cemetery Aberdar, y Parch. E. T. Evans yn gwasanaethu.

MANION AC HANESION.

CAPELYGROES. — Y Sul cyntaf o Awst, talodd Ysgol Sul Capelygroes ymweliad â Brynhafod. Trodd yr hin allan yn dda iawn o ffafriol, ac aeth yr ysgol i fyny yn weddol gryno. Yn ystod y gwasanaeth adroddodd amryw o'r plant Salmau ac Emynau; canodd y plant "P'le mae'r medelwyr" a "Telynau'r Plant," a'r côr "Yr Arglwydd yw fy mugail," yr oll yn swynol ac effeithiol iawn, dan arweiniad Mr. David Jones, Abernant; adroddodd yr ysgol y 10fed benod o Luc, a holwyd gan y Parch. E. Glyn Edwards, gweinidog y lle, er boddlonrwydd mawr i'r ysgol a'r holwr. Ar derfyn y gwasanaeth cawd anerchiad roesawol gan Mr. William Evans, Ffynonrhys. Hefyd, rhanwyd gan weinidog Capelygroes nifer o *Certificates* i blant Ysgol Sul Brynhafod am basio mewn gwybodaeth grefyddol. Yr oedd pobl Brynhafod wedi darparu yn helaeth ar gyfer yr ysgol, a chawd prydnawn neillduol o ddymunol yn mhob ystyr. Yn yr hwyr pregethwyd i lond capel o fobl gan weinidog Capelygroes.

Credwn mai profiad pawb fu yn y gwasanaeth oedd—"Mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd."

BWLCHYFADFA.—Cafodd aelodau cynulleidfa ac Ysgol Sul Bwlchyfadfa wledd ragorol o dê a bara brith prydnawn Mercher, Awst 18fed. Yr oedd yr hin yn hyfryd—un o nawnau caredig, cynes, Awst—ac felly daeth nifer luosog iawn yn nghyd i ymbesgi ar y pethau da ddarparwyd, ac yn eu plith yr oedd amryw ymwelwyr ag oeddent yn treulio eu gwyliau yn yr ardal. Nid dieithriaid oedd yr ymwelwyr hyn er hyny—na, bu rhai o honynt yn aelodau ffyddlawn yn y Bwlch cyn symud o honynt i Morganwg a siroedd ereill i fyw. Da oedd genym eu cwmni. Y tê drosodd, treuliwyd oriau difyr mewn chwareu ac ymgystadlu mewn rhedeg, &c. O'r dechreu i'r diwedd cafwyd prydnawn hapus dros ben. Rhoddwyd y wledd gan Miss Jones, Henbant; Miss Margaret Davies, Gwesyn Villa, a'r Parch. E. O. Jenkins. Mae 14 o aelodau newyddion wedi eu derbyn yn y Bwlch yn ystod y flwyddyn hon.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Bu materion yr Ysgol Sul ger bron y Gymdeithas Undodaidd ar adeg y cyrddau blynyddol yn Brondeifi, Awst 3, 1915. Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan yr ysgrifenydd, a phasiwyd ei fod yn cael ei dderbyn. Pasiwyd fod Gwersi o eiddo y Parch. D. Evans, Cribyn, i gael eu defnyddio ar gyfer arholiad 1916. Hefyd pasiwyd fod rhan o lyfr y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, i gael ei argraffu ar gyfer dysgu plant ieuainc i ddarllen Cymraeg.

LLANBEDR.—Bwriada eglwysi Brondeifi a Chaeronen wneuthur anrheg i'w cyn-weinidog, y Parch. R. C. Jones, ar achlysur ei ymddeoliad o'r weinidogaeth, ac os oes rhai o edmygwyr Mr. Jones, tuallan i'r eglwysi uchod, garent gyfranogi yn yr anrhydedd hon, y mae iddynt groesaw calon. Derbynir tanysgrifiadau, y rhai ddylent fod mewn llaw cyn ddiwedd Medi, gyda diolchgarwch gan yr ysgrifenydd, Mr. L. Terwyn Davies, Eurfaen, Lampeter.

CWRTNEWYDD.—Llawenydd genym gofnodi llwyddiant y brawd ieuanc, Mr. John James Evans, mab Mr. Enoch Evans, Bluebell. Y mae newydd enill y radd o B.A., gydag anrhydedd yn y Gymraeg, yn Mhrifysgol Cymru. Pan gofir nad yw Mr. Evans ond un-ar-ugain oed, a'i fod wedi graddio mor ardderchog ar ol arosiad o ddim ond tair blynedd yn y brifysgol, gwelir ei fod wedi enill anrhydedd na syrth ond i ran ychydig. Pob llwyddiant iddo eto yn y dyfodol.

YN NGHYLCH BONEDD.—Un gwr mawr a fyddai arferol o ddywedyd, os byddai ini olrhain ein disgynfa, y caem weled fod pob caethweision yn disgyn oddiwrth dywysogion, a phob tywysogion oddiwrth gaethweision. Ond nid ydyw o fawr pwys o ba le y daethom, ond *pa beth* a *pha fath* ydym. Nid ydyw gogoniant ein hynafiaid yn ddim mwy anrhydedd *i ni*, nag yw drygioni ei hiliogaeth o anghlod iddynt hwy. Ni waeth o ba wreiddyn y daethom ni allan, od oes rhinwedd genym; canys rhinwedd a daioni yn unig yw gwir fonedd.—*Trysorfa Gwybodaeth, 1770.*

BRWYDRAU BYWYD.

1215, Mehefin 15.—Llawnodwyd y "Magna Charta" gan y Brenin John, breintlen rhyddid Prydain Fawr. Nid oes achos diolch i'r brenin, gan mai dan orfod y llaw-nododd.

1415, Medi 20.—Bu farw Owen Glyndwr.

1815, Mehefin 18.—Brwydr Waterloo a marwolaeth General Picton.

CANMLWYDDIANT.

THOMAS GEE (1815–1898), perchen *Y Faner.*

J. AMBROSE LLOYD (1815—1874). Cerddor. Awdwr "Teyrnasoedd y Ddaear."

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion.

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

General Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
George Franklin, Esq., Sheffield, Esq.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
John Glasbrook, Esq., Esq., Swansea.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
Frederick William Nash, Esq
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
Sir Joseph Weston-Stephens, Bristol.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry; Sir Guy Douglas Arthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Subscribed Capital .. £22,947,804. **Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.**

Reserve Fund .. £4,000,000.

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.